Wales for Africa

Code of Conduct
Aim: to prevent Sexual Abuse, Sexual Exploitation and other forms of abuse

Wales for Africa staff, volunteers, project partners, ILO participants, grantees and contractors often work in positions of power both in the UK and overseas.

In the UK, there are various legal protections for vulnerable people which are not always present overseas. The Wales-based work of the programme is guided by UK law and policies and procedures.

The Code of Conduct below should be followed by all people funded by the Wales for Africa programme **when working overseas**. They are expected to follow this Code of Conduct regardless of local laws. Where appropriate, grantees and contractors will be expected to sign a copy of the Code of Conduct to signal their commitment to its terms.

Requirements of the Code of Conduct
This Code of Conduct outlines expected standards of behaviour of grant recipients (including volunteers and staff), Wales for Africa staff, volunteers, ILO participants, contractors and grant partners (hereafter referred to as staff, grant recipients and partners) towards children (girls and boys), young adults (young women and young men) and community members where work is being done.

It has been designed to give all who work with Wales for Africa the confidence to carry out their roles and ensure that positive relationships are developed and maintained.

Staff, grant recipients and partners have a responsibility to avoid actions or behaviour that may constitute poor practice or potentially abusive behaviour and should ensure that a culture of openness exists wherein actual or potential breaches of *the Code* may be challenged.

Building a positive relationship with the community members you are working with is paramount and it is important that all consider the power dynamics involved in all grant recipient - community relationships and partnerships, not only those involving children.

The Code applies to conduct in work or funded project activity roles, but we expect staff, grant recipients, contractors, ILO participants and partners to also apply these good practice principles in their personal lives.

Any violation of this policy occurring in relation to staff and others outside their professional roles - concerns regarding their behaviour towards children or adults may lead to follow up action, including referral to legal authorities and retraction of grant.

All Wales for Africa, grant recipients, contractors and partners are prohibited from engaging in the following harmful behaviour, including but not limited to:

- Any behaviour or activity that could amount to sexual exploitation and abuse
- Sexual activity with children (persons under the age of 18) regardless of the age of majority or age of consent locally. Mistaken belief regarding the age of a child is not a defence.
- Exchange of money, employment, goods, or services for sex, including sexual favours or other forms of humiliating, degrading or exploitative behaviour.
- Any other activity that is intended to cause physical or emotional harm, humiliation or exploitation to any individual.
- Any activity, practice or behaviour that suggests staff, grant recipients or partners have abused their position of power and is engaging any individual based on inherently unequal power dynamics.
- Sexual relationships between staff, grant recipients, partners and any individuals that are based on unequal power dynamics are strongly discouraged since they may undermine the credibility and integrity of the work of the Wales for Africa programme.

In addition, Wales for Africa staff, grant recipients, ILO volunteers and partners must:

- Create and maintain an environment that prevents all forms of exploitation and abuse and promotes the implementation of this *Code of Conduct*. Grant recipients have particular responsibilities to support and develop systems that maintain this environment.
- Report any concern or suspicion of exploitation, including sexual exploitation, abuse or breach of the *Code of Conduct* by a fellow member of staff immediately via the established reporting mechanisms.
- Make sure you know how to contact your Grant Manager if you need to report any abuse.

I _____ from _____ understand and agree to abide by the above principles. I understand that any breaches of the above Code will be responded to in accordance with the policies and procedures in place.

Signature: _____ Date_____

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cymru o blaid Affrica

Cod Ymddygiad
Nod: atal achosion o Gam-drin Rhywiol, Camfanteisio'n Rhywiol a mathau eraill o gamdriniaeth

Mae staff, gwirfoddolwyr, partneriaid prosiect, unigolion sy'n cymryd rhan mewn Cynllun Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol (ILO), derbynyddion grant a chontractwyr Cymru o Blaid Affrica yn aml yn gweithio mewn swyddi dylanwadol yn y Deyrnas Unedig (DU) a thramor.

Yn y DU, ceir amrywiol amddiffyniadau cyfreithiol ar gyfer pobl agored i niwed nad ydynt i'w cael bob amser dramor. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y rhaglen yng Nghymru yn cael ei arwain gan gyfraith, polisïau a gweithdrefnau'r DU.

Dylai'r Cod Ymddygiad isod gael ei ddilyn gan bob un sy'n cael ei ariannu gan y rhaglen Cymru o Blaid Affrica **pan fydd yn gweithio dramor**. Mae disgwyl iddynt ddilyn y Cod Ymddygiad hwn beth bynnag y bo'r cyfreithiau lleol. Lle bo hynny'n briodol, mae disgwyl i dderbynyddion grant a chontractwyr lofnodi copi o'r Cod Ymddygiad fel arwydd eu bod yn ymrwymo i'w delerau.

Gofynion y Cod Ymddygiad
Mae'r Cod Ymddygiad hwn yn amlinellu'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan dderbynyddion grant (gan gynnwys gwirfoddolwyr a staff), staff, gwirfoddolwyr, y rheini sy'n cymryd rhan mewn ILO, contractwyr a phartneriaid grant Cymru o Blaid Affrica (y'i gelwir wedi hyn yn staff, derbynyddion grant a phartneriaid) yn eu hymddygiad tuag at blant (merched a bechgyn), oedolion ifanc (menywod ifanc a dynion ifanc) ac aelodau o'r gymuned lle y mae gwaith yn cael ei wneud.

Fe'i cynlluniwyd i roi hyder i bob un sy'n gweithio gyda Cymru o Blaid Affrica ymgymryd â'i rôl a sicrhau bod perthynas gadarnhaol yn cael ei meithrin a'i chynnal rhwng pob un sydd ynghlwm â'r rhaglen.

Mae cyfrifoldeb ar staff, derbynyddion grant a phartneriaid i osgoi camau neu ymddygiad a allai fod gyfystyr ag ymarfer gwael neu ymddygiad a allai gam-drin, a dylent sicrhau hefyd fod diwylliant agored yn cael ei gynnal lle y gellir herio achosion gwirioneddol o dorri'r *Cod* neu achosion posibl o'i dorri.

Mae meithrin perthynas gadarnhaol ag aelodau'r gymuned yr ydych yn gweithio â hi yn hanfodol bwysig. Mae'n bwysig hefyd fod pawb yn ystyried y ddynameg pŵer yn achos pob perthynas a phartneriaeth rhwng derbynnydd grant a chymuned, nid y rheini sy'n ymwneud â phlant yn unig.

Mae'r Cod yn gymwys i ymddygiad yn y gwaith neu rolau lle ymgymerir â gweithgarwch prosiect wedi'i ariannu, ond rydym hefyd yn disgwyl i staff, derbynyddion grant, contractwyr a'r rheini sy'n cymryd rhan mewn ILO a phartneriaid gymhwyso'r egwyddorion ymarfer da hyn yn eu bywydau personol.

Gall unrhyw achos o dorri'r polisi hwn mewn perthynas â staff ac eraill y tu allan i'w rolau proffesiynol – pryderon yn ymwneud â'u hymddygiad tuag at blant neu oedolion – arwain at gamau dilynol, gan gynnwys atgyfeiriad i'r awdurdodau cyfreithiol a thynnu'r grant yn ôl.

Mae pob derbynnydd grant, contractiwr a phartner Cymru o Blaid Affrica wedi ei wahardd rhag cymryd rhan mewn ymddygiad niweidiol, sy'n cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- Unrhyw ymddygiad neu weithgarwch a allai fod gyfystyr â chamfanteisio a cham-drin rhywiol

- Gweithgarwch rhywiol gyda phlant (personau o dan 18 oed) beth bynnag y bo'r oedran oedolaeth neu'r oedran cydsynio yn lleol. Nid yw camfarnu oedran plentyn yn amddiffyniad.

- Cyfnewid arian, cyflogaeth, nwyddau neu wasanaethau am ryw, gan gynnwys ffafrau rhywiol neu fath arall o ymddygiad sy'n sarhau, difrïo neu'n gamfanteisio.

- Unrhyw weithgarwch arall sydd â'r bwriad o achosi niwed corfforol neu emosiynol, neu sy'n sarhau unigolyn neu'n gamfanteisio arno.

- Unrhyw weithgaredd, ymarfer neu ymddygiad sy'n awgrymu bod aelod o staff, derbynnydd grant neu bartner wedi camddefnyddio ei bŵer a'i fod yn ymwneud ag unrhyw unigolyn ar sail dynameg pŵer sydd yn ei hanfod yn anghyfartal.

- Cynghorir yn gryf yn erbyn cynnal perthynas rywiol rhwng staff, derbynyddion grant, partneriaid ac unrhyw unigolion ar sail dynameg pŵer sydd yn ei hanfod yn anghyfartal oherwydd gallai danseilio hygrededd ac uniondeb gwaith y rhaglen Cymru o Blaid Affrica.

At hynny, rhaid i aelodau staff, derbynyddion grant, gwirfoddolwyr ILO a phartneriaid Cymru o Blaid Affrica:

- Greu a chynnal amgylchedd sy'n atal pob ffurf o gamfanteisio a chamdriniaeth ac sy'n hyrwyddo gweithredu'r *Cod Ymarfer* hwn. Mae gan dderbynyddion grant gyfrifoldebau penodol i gefnogi a datblygu systemau sy'n cynnal yr amgylchedd hwn.

- Adrodd am unrhyw bryder neu amheuaeth y ceir achos o gamfanteisio, gan gynnwys camfanteisio neu gam-drin rhywiol, neu o dorri'r *Cod Ymddygiad* gan gyd-aelod o staff ar unwaith gan ddefnyddio'r dulliau adrodd sefydledig.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod sut i gysylltu â'ch Rheolwr Grant os byddwch angen adrodd am unrhyw gamdriniaeth.

Yr wyf i _____ o _____ yn deall yr egwyddorion uchod ac yn cytuno i gydymffurfio â hwy. Rwy'n deall yr eir i'r afael ag unrhyw achos o dorri'r Cod uchod yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith.

Llofnod: _____ Dyddiad_____